

# Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ysbyty Sirol

Ward Talygarn

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 9 - 11 Medi 2019

Dyddiad cyhoeddi: 12 Rhagfyr 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf? .....	25
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG .....	26
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl yn yr Ysbyty Sirol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar noson 9 Medi 2019, a'r diwrnodau canlynol 10 a 11 Medi. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Talygarn - Derbyniadau Iechyd Meddwl Acíwt (Oedolion)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Uwch-arolygydd Gofal Iechyd o AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd adolygwr enwebedig y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015). Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu sefydledig ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw yn canmol y gofal yr oeddent yn ei gael
- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol
- Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Troi'r ardaloedd cysgu yn ystafelloedd gwely sengl
- Sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu cadw ar y tymheredd cywir yn y clinig
- Cynorthwyo staff i gael goruchwyliaeth glinigol

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Ward Talygarn yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn yr Ysbyty Sirol, Coed-y-Gric Road, Griffithstown, Pont-y-pŵl, NP4 5YA ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ward iechyd meddwl aciwt yw Ward Talygarn sy'n derbyn ac yn asesu cleifion o awdurdodau lleol Torfaen a gogledd Sir Fynwy a holl ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan rhwng hanner nos a 9am.

Mae Ward Talygarn yn ward ar wahân ar safle'r Ysbyty Sirol. Mae'r ward ar y llawr gwaelod ac mae tîm iechyd meddwl cymunedol Torfaen yn gweithio ar y llawr cyntaf. Mae tîm gogledd Sir Fynwy yn gweithio yn y Fenni, sydd tua 10 milltir o'r Ysbyty Sirol.

Mae'r ward yn agored i ddynion a menywod ac mae'n cynnwys 21 o welyau. Ceir dwy ystafell wely - un i ddynion ac un i fenywod - â phedwar gwely ym mhob un, dwy ystafell wely - un i ddynion ac un i fenywod - â dau wely ym mhob un a naw ystafell wely sengl.

Mae'r tîm staff yn cynnwys rheolwr y ward a thri dirprwy reolwr, sy'n gweithio fel nyrsys cyswllt â'r tri thîm iechyd meddwl cymunedol lleol. Mae gan y ward nifer o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys tri chlinigydd cyfrifol sy'n gweithio yn Ward Talygarn a'u hardaloedd perthnasol, a cheir mewnbwn gan dimau seicoleg a Therapi Galwedigaethol. Mae gan y ward Weithiwr Cymorth Therapi Galwedigaethol dynodedig.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y cleifion yn rhannu ystafelloedd gwely yn effeithio ar eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y bwrdd iechyd yn ystyried opsiynau i fynd i'r afael â hyn.

Rhodddwyd y cyfle i'r cleifion gynnal a datblygu sgiliau drwy raglenni gweithgareddau a rhaglenni therapi amrywiol.

## Cadw'n iach

Roedd pwyslais ar ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i'r cleifion er mwyn helpu i gefnogi eu hannibyniaeth a'u helpu i wella.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod rhai cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a therapiau yn rheolaidd. Roedd y rhain wedi'u hwyluso gan Weithiwr Cymorth Therapi Galwedigaethol y ward.

Roedd y ward wedi datblygu rhandir gerllaw tir yr ysbyty gyda phartneriaid yn y Trydydd Sector, dan arweiniad y Gweithiwr Cymorth Therapi Galwedigaethol. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r cleifion ofalu am yr ardal a thyfu ffrwythau a llyisiau.

Mae'r adran Therapi Galwedigaethol yn helpu i ddarparu amrywiaeth briodol o weithgareddau asesu, yn yr ysbyty a'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â'r sinema a mynd i fowlio, yn ogystal â mynd i siopau a bwytai lleol. Roedd cysylltiadau cryf â sefydliadau allanol a oedd yn darparu gweithgareddau ychwanegol, fel therapi cŵn a grwpiau cerdded.

Roedd gan y ward amrywiaeth o weithgareddau a chyfleusterau sy'n addas i ward derbyn aciwt. Roedd lolfa gymunol fawr ac amrywiaeth o gemau, llyfrau a DVDs ar gael i'r cleifion. Roedd ystafell Therapi Galwedigaethol ar gael hefyd a oedd yn cael ei defnyddio i gynnal gweithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol â chleifion. Yn ogystal, roedd cegin Therapi Galwedigaethol ar gael, a oedd yn rhoi cyfle i'r cleifion ymarfer a datblygu eu sgiliau.



O ganlyniad i brysurdeb y ward, roedd y ward yn dibynnu ar y gweithiwr cymorth Therapi Galwedigaethol i hwyluso gweithgareddau. Er ei bod yn amlwg bod y cynllun gweithgareddau'n hyblyg er mwyn addasu i ddymuniadau'r cleifion, os nad oedd y cleifion yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a oedd yn cael eu hwyluso gan y Therapydd Galwedigaethol, roeddent yn aml yn colli allan ar weithgareddau, am nad oedd gan staff y ward fawr o gyfle i ymgysylltu â chleifion yn ystod gweithgareddau ad hoc. Roedd rhai o'r cleifion y cawsom sgwrs â nhw wedi cyfeirio at hyn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir cefnogi a hwyluso gweithgareddau ad hoc ychwanegol ar y ward.

## Gofal ag urddas

Drwy'r ysbyty cyfan, roedd yr holl staff a welsom yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Gwnaeth y cleifion y cawsom sgwrs â nhw gadarnhau hyn a chanmol y gofal roeddent yn ei gael ar y ward.

Roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd yr oeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad, a gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch. Pan oedd y cleifion yn mynd at yr aelodau o'r staff, roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol.

Roedd naw ystafell wely sengl ac roedd gan ddwy ohonynt doiled, sinc a chawod en-suite. Ar ben hynny, roedd dwy ystafell wely - un i ddynion ac un i fenywod - â phedwar gwely ym mhob un a dwy ystafell wely - un i ddynion ac un i fenywod - â dau wely ym mhob un. Roedd llenni'n gwahanu'r gwelyau yn yr ystafelloedd gwely a rennir. Nid yw hyn yn gweddu i ddarpariaeth gofal iechyd meddwl fodern oherwydd gall rhannu ystafelloedd gwely effeithio ar breifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd pedwar toiled, tair cawod a bath ar gael i'r cleifion hynny nad oedd ganddynt gyfleusterau yn eu hystafelloedd eu hunain. Roedd angen llen newydd o gwmpas un o'r cawodydd a chafwyd cadarnhad bod llen wedi cael ei harchebu ond nad oedd wedi cyrraedd eto.

Cyflwynodd yr uwch-reolwyr opsiynau arfaethedig i ni ar gyfer ad-drefnu'r ward yn ystafelloedd gwely sengl ag en-suite. Nid yw'r bwrdd iechyd wedi gwneud penderfyniad eto, ond byddai ystafelloedd gwely sengl yn rhoi mwy o breifatrwydd i'r cleifion ac yn eu helpu i gynnal eu hurddas yn yr ysbyty.

Mae'r ward wedi cael ei hadnewyddu a'i hailaddurno ers ein harolygiad blaenorol ac roedd yn gadarnhaol clywed bod barn y cleifion ar addurno'r ward wedi cael eu hystyried. O ganlyniad, roedd amrywiaeth o luniau i'w gweld ar y waliau ym mhob rhan o'r ward ac roedd yr ardaloedd cymunol yn fwy lliwgar, a oedd yn gwneud i'r ward edrych yn llai clinigol. Roedd ardal ddiodydd wedi'i gosod yn un o'r ystafelloedd cymunol hefyd, lle gallai'r cleifion baratoi eu diodydd poeth ac oer eu hunain.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r iard amgaeedig hefyd, gyda murlun mawr ar y wal a dodrefn awyr agored priodol. Cadarnhaodd y staff y byddai mwy o weithgareddau hamdden awyr agored yn cael eu cynnal er mwyn annog y cleifion i ddefnyddio'r ardal awyr agored.

Cawsom wybod hefyd fod cynlluniau i osod cyfarpar ymarfer corff awyr agored er mwyn galluogi'r cleifion i wneud ymarfer corff yn ystod eu cyfnod fel cleifion mewnol.

Roedd landeri'r adeilad uwchben yr ardd amgaeedig wedi'u blocio a gwelsom ddŵr yn gorlifo'n syth i mewn i'r ardd yn ystod yr arolygiad. Dylid mynd i'r afael â hyn oherwydd gallai dŵr lanio ar ben person yn yr ardd a hefyd amharu ar gwsg claf mewn ystafell wely gyfagos.

Roedd cyfleusterau golchi dillad yn yr ysbyty ac roedd y cleifion yn cael eu hannog i'w defnyddio, gyda chymorth y staff lle bo angen.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod llenni o amgylch pob cawod
- Rhoi diweddariad ar ad-drefnu'r ward yn ystafelloedd gwely sengl
- Rhoi diweddariad ar y cynlluniau i osod cyfarpar ymarfer corff awyr agored
- Sicrhau bod landeri'r adeilad yn rhydd o unrhyw rwystrau ac yn gweithio'n iawn.

### Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i helpu cleifion a'u teuluoedd i ddeall y gofal a roddir iddynt, yn ogystal â manylion sefydliadau a all roi help a chefnogaeth i gleifion y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt. Roedd gwybodaeth am wasanaethau eirioli yn cael ei harddangos hefyd.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gall cleifion a'u teuluoedd roi adborth am eu profiadau o'r gofal a roddir ar y ward. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos hefyd am y ffordd y gallai'r cleifion godi pryder am y gofal roeddent yn ei gael, gan gynnwys trefniadau Gweithio i Wella<sup>1</sup> GIG Cymru.

Roedd gwybodaeth ar gael am fwyta'n iach a mentrau eraill i hybu iechyd. Roedd y gwasanaeth hefyd yn helpu'r cleifion i ddefnyddio gwasanaethau asiantaethau ac elusennau eraill, gan gynnwys cymorth i fenywod, a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru na sut y gall cleifion gysylltu â ni. Mae hyn yn ofynnol o dan God Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983<sup>2</sup>.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod hysbysfwrdd yn dangos ffotograffau o'r aelodau o'r staff ar y ddwy ward. Mae'r rhain yn helpu'r cleifion ac ymwelwyr i adnabod aelodau unigol o'r staff.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos am rôl AGIC a sut y gellir cysylltu â'r sefydliad.

---

<sup>1</sup> Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

<sup>2</sup> Mae Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Diwygiwyd 2016) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol am eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn ogystal â rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol, mae'r Cod Ymarfer hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. <https://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/?lang=cy>

## Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Os oedd y cleifion yn ansicr o hyd neu os nad oeddent yn deall, byddai'r staff yn ceisio egluro'r hyn yr oeddent wedi'i ddweud yn amyneddgar.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Roedd teuluoedd a gofalwyr y cleifion hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd unigol.

Roedd cyfarfodydd wythnosol rheolaidd yn cael eu cynnal â'r cleifion. Wrth edrych ar y cofnodion, gwelsom dystiolaeth o hyn neu, os nad oedd cyfarfod wedi cael ei gynnal, gwelsom fod rheswm priodol wedi cael ei gofnodi dros hynny.

Roedd bwrdd Dywedocho Chi, Gwnaethom Ni ar gael a oedd yn dangos adborth y cleifion a'r camau yr oedd y bwrdd iechyd wedi'u cymryd mewn ymateb iddo. Roedd y bwrdd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gan y staff er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd ffocws clir ar roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y cleifion yn cael gofal unigoleddig sy'n canolbwyntio ar eu helpu i wella, ac roedd y gofal hwn yn cael ei ategu gan yr arferion lleiaf cyfyngol. Roedd hyn yn berthnasol i waith cynllunio gofal ac arferion y ward a'r ysbyty.

Roedd gan bob claf ei raglen gofal ei hun a oedd yn seiliedig ar ei anghenion unigol, megis meddyginiaeth, sesiynau therapi a gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, wedi'u lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Roedd cysylltiadau cryf â thimau cymunedol lleol a sefydliadau allanol, a oedd yn galluogi'r cleifion i fanteisio ar y gwasanaethau a'r gweithgareddau hyn fel rhan o'u gofal yn yr ysbyty ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

### Hawliau pobl

Adolygwyd sampl o gofnodion gofal ar gyfer y cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Gwelsom fod y ddogfennaeth sydd ei hangen o dan y ddeddfwriaeth ar waith. Roedd hyn yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu hyrwyddo a'u diogelu fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf

Roedd hawl gan y cleifion i ddefnyddio ffonau symudol i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau. Roedd mynediad at ffonau symudol yn cael ei reoli ar sail y risg i bob claf. Dywedodd y cleifion a'r staff wrthym fod modd defnyddio ffonau'r ward i gysylltu â pherthnasau hefyd ac roedd ffonau talu ar y wardiau.

Roedd ystafell ymweld i deuluoedd oddi ar y ward, ar lawr cyntaf uned Talygarn. Roedd yr ystafell hon wedi cael ei haddurno'n ddiweddar gyda chadeiriau a murluniau newydd. Pe bai angen, gallai'r staff arsylwi ar ymweliadau y tu allan i'r ystafell ymweld. Roedd amrywiaeth o deganau plant yn yr ystafell, gan gynnwys sbonciwr babi, cegin fach a wal bwrdd du.

### **Gwrando ar adborth a dysgu ohono**

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion a'u teuluoedd yn gallu rhoi adborth am eu profiadau a chodi pryderon.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn ceisio datrys cwynion yn syth lle bynnag y bo'n bosibl. Lle nad oedd hyn yn bosibl, roeddent yn ymwybodol y gallai'r cleifion uwchgyfeirio eu pryder drwy weithdrefn y bwrdd iechyd.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y ward wedi defnyddio prosesau'r bwrdd iechyd a phrosesau lleol i reoli ac adolygu risgiau, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd mynedfa'r ward ym maes parcio'r ysbyty ac roedd y fynedfa'n addas i bobli ag anawsterau symudedd. Roedd y ward yn cael ei chadw ar glo hefyd er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Ar y cyfan, roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau ar bob ward yn briodol ar gyfer y grwpiau cleifion bwriadedig. Roedd y bwrdd iechyd wedi ymgymryd â gwaith ailwampio gwrthglymu sylweddol er mwyn lleihau'r risg y byddai claf yn hunan-niweidio.

Ers ein harolygiad blaenorol, roedd y bwrdd iechyd wedi uwchraddio system larymau personol y staff a'r system galw nyrsys. Byddai'r ddwy system yn seinio ar ôl cael eu hactifadu a byddai paneli arddangos yn y ward yn dangos lleoliad y digwyddiad. Felly, byddai'r staff yn gwybod yn union ble mae angen ymateb.

Roedd y system larwm hefyd wedi'i chysylltu â'r timau cymunedol ar lawr cyntaf yr uned a ward cleifion mewnol arall ar safle'r Ysbyty Sirol. Felly, pe byddai angen, gallai'r staff ar Ward Talygarn gael cymorth o'r ardaloedd hyn. Fodd bynnag, mewn un ystafell wely, nid oedd y botwm galw nyrs o fewn cyrraedd i'r gwely, felly mae'n bosibl na fyddai claf yn yr ystafell hon yn gallu galw am staff

pe bai angen cymorth arno. Dylai bod modd cyrraedd botwm galw nyrs o'r gwely mewn ystafelloedd gwely.

Nodwyd bod strategaethau ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Soniwyd bod technegau ataliol yn cael eu defnyddio ac y byddai staff, lle y bo angen, yn arsylwi ar gleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn peri pryder. Cadarnhaodd uwch aelodau o staff fod cleifion yn cael eu rhwystro'n gorfforol ond nad oedd hynny'n digwydd yn aml a dim ond pan fetho popeth arall. Nid oedd gan y ward ardal benodol lle gallai'r staff anfon cleifion er mwyn rheoli eu hymddygiad heriol ac nid oedd ardaloedd arwahanu ar gael chwaith<sup>3</sup>.

Ychydig o le oedd ar gael i'r staff siarad â'r cleifion mewn ardal dawel, i ffwrdd o'r cleifion eraill. Os na fyddai modd tawelu claf drwy ddulliau llafar, disgrifiodd y staff y trefniadau sydd ar waith i amddiffyn preifatrwydd ac urddas y claf pe bai angen ymyriad corfforol. Fodd bynnag, byddai'r ymyriadau hyn fel arfer yn cael eu cynnal mewn ardaloedd cymunol lle gallai cleifion eraill fod yn bresennol. Yn ogystal â chael effaith negyddol ar urddas y claf, gall hyn wneud i'r cleifion eraill sydd yn yr ardal ar y pryd ac sy'n dyst i'r digwyddiad deimlo'n anesmwyth hefyd.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y byddai'r bwrdd iechyd yn troi dwy ystafell wely yn Ardal Gofal Ychwanegol. Byddai'r Ardal hon yn galluogi'r staff i roi cymorth ychwanegol i glaf, ar wahân i'r cleifion eraill ar y ward.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod modd cyrraedd y botwm galw nyrs o'r gwely mewn ystafelloedd gwely
- Rhoi diweddariad ar y cynllun i greu'r Ardal Gofal Ychwanegol.

---

<sup>3</sup> Cyfyngu ac ynysu claf dan oruchwyliaeth, i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill, mewn ardal y caiff y claf ei rwystro rhag ei gadael, lle mae angen gwneud hynny ar unwaith er mwyn atal aflonyddwch ymddygiadol difrifol sy'n debygol o achosi niwed i eraill. (Cod Ymarfer Cymru (2016) ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983)

## Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau priodol ar waith i reoli'r broses o atal a rheoli heintiau'n ddiogel.

Roedd archwiliad rheolaidd o reoli heintiau ar waith. Roedd hyn yn cael ei gwblhau gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle y bo angen. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau ar y wardiau ac archwiliadau tîm atal a rheoli heintiau'r bwrdd iechyd.

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom fod yr ysbyty yn lân yr olwg heb unrhyw annibendod. Roedd yr offer glanhau wedi'i storio a'i drefnu'n briodol. Er bod yr offer glanhau'n lân yr olwg, nid oedd unrhyw gofnod i ddangos pryd y cafodd ei lanhau na'i newid ddiwethaf. Byddai cadw cofnod o'r fath yn helpu i atal a rheoli heintiau.

Roedd y bwrdd iechyd yn cyflogi staff cadw tŷ penodol ar gyfer y wardiau. Roedd amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty, ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gyfer atal a rheoli heintiau a diheintio ar gael i'r staff yn ôl yr angen.

Roedd cynhyrchion glanhau dwylo ar gael yn y manau perthnasol o'r ysbyty, fel y ward, y clinig a'r ardaloedd paratoi bwyd; ar y cyd â'r rhain roedd arwyddion priodol.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol ac nid oedd y rhain wedi'u gorlenwi.

## Maeth a hydradu

Gwelsom fod y cleifion yn cael dewis o fwyd a diod ac roedd byrbrydau a diodydd ychwanegol ar gael drwy gydol y dydd.

Gwelsom brydau bwyd yn cael eu gweini, ac roedd yr ystafell fwyta'n lân ac yn daclus ac yn cynnig amgylchedd addas i gleifion fwyta eu prydau. Roedd y cleifion yn edrych fel pe baent yn mwynhau'r bwyd a gwnaethant ganmol y bwyd yn gyffredinol pan wnaethom sgwrsio â nhw.

Fel y nodwyd eisoes, roedd cegin Therapi Galwedigaethol yn y ward y gallai'r cleifion ei defnyddio i baratoi bwyd, a gwelsom y gegin hon yn cael ei defnyddio yn ystod yr arolygiad.

## Rheoli meddyginiaethau



Yn gyffredinol, roedd meddyginiaethau'n cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd y clinig yn cael ei gloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Yn y clinig, roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo; roedd y troli meddyginiaeth hefyd wedi'i gloi yn y clinig, er mwyn atal unrhyw berson diawdurdod rhag ei symud. Roedd trefniadau priodol ar waith ar y ddwy ward ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau a all gael eu camddefnyddio.

Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ystod ein harolygiadau mewn rhannau eraill o'r bwrdd iechyd, nid oedd tymheredd y clinig yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau eraill yn cadw o fewn yr amrediadau tymheredd derbyniol.

Roedd mewnbyn rheolaidd gan y fferyllfa ac roedd archwiliadau yn cael eu cynnal a oedd yn helpu i reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR)<sup>4</sup> a adolygwyd gennym wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff. Roedd hyn yn cynnwys yr holl fanylion am y claf ar y dudalen flaen a thudalennau dilynol, ei statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu fesuriadau iechyd corfforol megis mynegai crynswth corfforol, pwysau neu daldra. Roedd y staff hefyd yn cadw cofnodion cyson o unrhyw feddyginiaeth a roddwyd, neu'r rheswm dros beidio â rhoi unrhyw feddyginiaeth.

Gwnaethom siarad â'r staff am ddefnyddio polisi hunan-feddyginiaeth y bwrdd iechyd yn achos rhai cleifion a fyddai'n cael budd o hynny fel rhan o'u gofal adsefydlu. Gallai'r cleifion hynny gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu meddyginiaeth eu hunain fel eu bod yn barod i gael eu rhyddhau i'r gymuned. Roedd y staff yn barod i ddatblygu hyn ar gyfer y ward aciwt.

Roedd cyfarpar dadebru brys ar gael yn hawdd i'r staff ac roedd tystiolaeth i ddangos bod archwiliadau yn cael eu cwblhau bob nos. Roedd amrywiaeth o

---

<sup>4</sup> Defnyddir Cofnod Rhoi Meddyginiaeth fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

dorwyr clymau ar gael ym mhob rhan o'r ward i'w defnyddio pe bai argyfwng hunan-niweidio.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod tymheredd y clinigau lle caiff meddyginiaethau eu cadw, yn cael ei fonitro'n rheolaidd.
- Ystyried rhoi trefniadau hunan-feddyginiaeth ar waith ar gyfer cleifion sydd wedi cael asesiadau priodol, yn barod ar gyfer eu rhyddhau.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adroddiad, mae angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Ceir manylion am y diffygion hyn, ynghyd â chymau gweithredu'r bwrdd iechyd, yn Atodiad C.

### Cadw cofnodion

Ffeiliau papur oedd cofnodion y cleifion yn bennaf, a oedd yn cael eu storio a'u cadw dan glo yn swyddfa'r nyrsys. Roedd rhai dogfennau electronig a oedd wedi'u diogelu â chyfrinair. Gwelsom y staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Ar y cyfan, roedd y cofnodion cleifion a adolygwyd gennym yn drefnus ond roedd rhai cofnodion yn rhy llawn a oedd yn golygu bod rhai papurau wedi dod yn rhydd ac y gallent gwmpo allan. Felly, roedd risg y gallai'r wybodaeth hon gael ei cholli.

Roedd y staff yn cadw cofnodion ffeithiol ac roedd y cofnodion yn ymwneud â threfn ddyddiol y cleifion yn fanwl, a oedd yn golygu eu bod yn rhoi gwybodaeth glir am ofal pob claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw cofnodion y cleifion yn rhy llawn.

### **Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Gwnaethom edrych dros ddogfennau cadw statudol dau glaf ar Ward Talygarn. Roedd y dogfennau statudol yn cadarnhau bod y cleifion wedi'u cadw'n gyfreithlon, ac roedd Tîm Gweinyddu Deddf Iechyd Meddwl y bwrdd iechyd yn defnyddio trefniadau archwilio sefydledig i fonitro sut y caiff y Ddeddf ei defnyddio.

Gwelsom fod Tîm Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi cefnogaeth ragweithiol i'r wardiau yn y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddwr dynodedig i roi hyfforddiant a diweddariadau i staff wardiau mewn perthynas â'r Ddeddf, gyda phwyslais ar ddiweddariadau perthnasol i'r gyfraith gofal a sut i gymhwyso'r Ddeddf i enghreifftiau a sefyllfaoedd go iawn.

Roedd diweddariadau e-bost misol ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cael eu hanfon at bersonél perthnasol fel rheolwyr wardiau, nyrsys arweiniol a staff meddygol.

### **Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal**

Gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal tri chlaf. Roedd gan bob claf gynllun gofal a thriniaeth cyfredol.

Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys cynlluniau gofal manwl sy'n helpu'r staff i roi gofal i'r cleifion. Roedd y cynlluniau gofal yn cael eu hategu gan asesiadau risg a oedd yn rhestru'r risgiau a nodwyd a sut i'w rheoli a'u lliniaru.

Roedd amrywiaeth o ddogfennaeth iechyd corfforol safonedig yng nghofnodion y cleifion, fel NEWS<sup>5</sup>, MUST<sup>6</sup>, a dogfennau ar ofal y geg. Ar y cyfan, roedd y dogfennau a adolygwyd gennym yn fanwl ac wedi'u cwblhau'n dda, a oedd yn dangos bod y staff yn gofalu am iechyd corfforol y cleifion ac yn ei fonitro, tra roeddent yn yr ysbyty.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod adolygiadau gofal yn cael eu cynnal bob wythnos yn yr ysbyty, mewn cysylltiad â'r tîm cymunedol perthnasol er mwyn helpu i ryddhau'r claf o'r ysbyty.

Mae cofnodion y cleifion yn dangos bod y staff yn gweithio'n gadarnhaol gyda sefydliadau allanol i gefnogi amgylchiadau cymdeithasol unigolion. Roedd hyn yn cynnwys Cymorth i Fenywod, gwasanaethau cwnsela ar gyfer profedigaeth, cymorth tai a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Roedd y rhain yn golygu bod gan y cleifion gyswllt yn y gymuned a allai barhau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

---

<sup>5</sup> Canllaw a ddefnyddir gan wasanaethau meddygol i bennu difrifoldeb salwch claf yn gyflym yw'r Sgoriau Rhybuddio Cynnar Cenedlaethol. Mae'n seiliedig ar arwyddion hanfodol fel cyfradd resbiradu, dirlawnder ocsigen, tymheredd, pwysedd gwaed, cyfradd curiad y galon, ymateb AVPU (effro, llafar, poen, anymatebol).

<sup>6</sup> Adnodd sgrinio pum cam yw MUST (Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maethiad) sy'n nodi oedolion sy'n dioddef o ddiffyg maeth, sydd mewn perygl o ddioddef o ddiffyg maeth neu sy'n ordew. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau rheoli y gellir eu defnyddio i ddatblygu cynllun gofal.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd gan y ward brosesau a threfniadau archwilio effeithiol i gefnogi'r staff wrth gynnal gofal diogel ac effeithiol.

Roedd arweinyddiaeth frwd, gwaith tîm da a staff llawn cymhellant a oedd yn darparu gofal pwrpasol i'r cleifion. Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cydweithwyr a'r timau rheoli.

Ar y cyfan, roedd cysylltiadau cryf â thimau cymunedol a sefydliadau allanol er mwyn cefnogi'r gofal a roddir i'r cleifion. Fodd bynnag, roedd hyn yn llai amlwg yn achos tîm cymunedol Gogledd Sir Fynwy.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio'n glir yn ystod y dydd ac roedd trefniadau ar gyfer uwch-reolwyr a meddygon ar alw ar waith ar gyfer y sifft nos.

Roedd systemau a phrosesau wedi'u diffinio ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd rheolwr a dirprwy reolwyr y ward yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael eu cefnogi gan dîm ward ymroddedig a chymorth gan uwch-reolwyr. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Dywedodd y staff hefyd fod gwaith tîm a morâl y staff ar y wardiau yn dda. Roedd y ward yn ceisio darparu lefel uchel o ofal i'r grŵp cleifion er mwyn eu helpu i wella'n gyflymach a chael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gynt. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan gydweithio agos a chynhyrchiol â'r timau iechyd meddwl cymunedol perthnasol.

Roedd gan y ward ddogfennau trosglwyddo rhwng sifftiau a oedd yn nodi'r wybodaeth hanfodol ynghylch pob claf yn glir. Roedd y dogfennau hyn yn ddogfennau cyfeirio da i'r staff ar ddyletswydd.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi ar nifer o gyfarfodydd timau amlddisgyblaethol, a oedd yn cynnwys aelodau o'r gwasanaeth cleifion mewnol a'r timau cymunedol. Yn ystod y cyfarfod â thîm cymunedol gogledd Torfaen a thîm cymunedol de Torfaen, cafwyd trafodaethau amlddisgyblaethol cydweithredol a chynhwysol a oedd yn canolbwyntio ar anghenion gofal cleifion unigol. Roedd hi'n amlwg bod gan y tîm cleifion mewnol a'r timau cymunedol perthnasol gydberthynas waith gadarnhaol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfarfod â thîm cymunedol gogledd Sir Fynwy, roedd llai o dystiolaeth o gydweithio amlddisgyblaethol, ac roedd hi'n ymddangos bod y berthynas rhwng y tîm cleifion mewnol a'r tîm cymunedol yn fwy digyswllt.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod rheolwyr o'r tîm cleifion mewnol a'r tîm cymunedol yn cael cyfarfod trosglwyddo dyddiol, fel bod pob gwasanaeth yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i anghenion y cleifion, boed hynny yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Roedd hyn yn helpu'r timau i gydgyllunio er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y cleifion yn eu gwasanaeth.

Roedd Ward Talygarn yn derbyn oedolion y tu allan i oriau (canol nos i 9am) ar gyfer Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i gyd. Yn ystod ein harolygiad yn 2017<sup>7</sup>, roedd hi'n amlwg bod y trefniant hwn yn effeithio'n sylweddol ar weithrediad y ward. Er bod Ward Talygarn yn dal i dderbyn oedolion y tu allan i oriau, a oedd yn rhoi mwy o bwysau ar y staff a oedd yn gweithio yn y ward yn y nos, cawsom wybod bod y trefniant yn cael ei ailystyried fel rhan o adolygiad y bwrdd iechyd o'r gwasanaeth a bod trefniadau amgen wedi'u cynnwys yn y cynigion.

---

<sup>7</sup> <https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-06/170418countyhospitaltalygarncy.pdf>

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Yn dilyn hyn, roedd adroddiadau'n cael eu llunio a'u hadolygu gan yr ysbyty a'r sefydliad ac roedd y data'n cael eu hadolygu a'u dadansoddi hefyd.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Yn ystod ein sgwrsiau â rhai aelodau o staff y ward, cawsom wybod eu bod yn teimlo mai nod y broses ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol ac anffafriol oedd canfod bai ar lefel y ward. Mae hyn yn groes i bolisi'r bwrdd iechyd. Er y dywedodd y staff eu bod yn barod i ddysgu o ddigwyddiadau a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan dîm y ward yn ystod digwyddiadau o'r fath, roeddent hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu targedu gan yr ymchwiliad ac nad oeddent yn cael cefnogaeth gan uwch-reolwyr yn ystod y broses anodd. Er i'r uwch-reolwyr wadu hyn, dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir cefnogi'r staff yn ystod ymchwiliadau a sut i'w helpu i ddeall y broses.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff i gyd, drwy gydol yr arolygiad, yn barod i dderbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Rhoi diweddariad ar ddarpariaeth y bwrdd iechyd ar gyfer derbyn oedolion y tu allan i oriau
- Ystyried sut y gellir cefnogi'r staff ymhellach, yn ystod ymchwiliad i ddigwyddiad.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd y lefelau staffio i'w gweld yn briodol er mwyn cadw'r cleifion yn yr ysbyty yn ddiogel ar adeg ein harolygiad.

Roedd y staff yn dangos eu bod yn gweithio'n dda fel tîm ac roeddent i'w gweld yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal pwrpasol i'r cleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cydweithwyr ac arweinyddiaeth eu rheolwyr.

Yn ystod yr arolygiad, roedd un swydd ar gyfer dirprwy reolwr y ward wedi dod yn wag yn ddiweddar, ac roedd dwy swydd wag i nyrsys cofrestredig; roedd prosesau recriwtio ar waith ar gyfer y swyddi gwag hyn. Fodd bynnag, roedd y ward wedi profi nifer o absenoldebau oherwydd salwch a bu'n rhaid cael staff ychwanegol er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i rai cleifion; roedd hyn wedi'i gwneud hi'n anodd cydymffurfio â'r rota staff. Lle y bo'n bosibl, roedd y ward yn defnyddio'i staff ei hun a staff rheolaidd o blith staff banc y bwrdd iechyd i lenwi'r bylchau staffio hyn.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff yn gweithio sifftiau ychwanegol er mwyn helpu i gyflawni'r rotas er mwyn cynnal parhad y gofal. Gwnaethom adolygu rotas staff a siarad â rheolwr y ward a gadarnhaodd fod sifftiau ychwanegol yn cael eu monitro er mwyn atal y staff rhag gweithio oriau rhy hir a all arwain at flinder.

Roedd y wybodaeth am hyfforddiant a adolygwyd gennym yn dangos bod disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei monitro'n rheolaidd. Roedd y staff hefyd wedi cael hyfforddiant ychwanegol ac wedi mynd i gynadleddau a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Roedd y staff yn cwblhau arfarniadau perfformiad blynyddol ac roedd y rhain yn cael eu dogfennu fel tystiolaeth eu bod wedi cael eu cwblhau. Roedd y staff hefyd yn cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd â'r rheolwyr a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Gallai'r staff gael goruchwyliaeth glinigol drwy'r bwrdd iechyd ond cawsom wybod mai ychydig ohonynt a oedd wedi gwneud hynny ar y cyfan. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr bod y mater yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod mwy o staff y ward yn cael goruchwyliaeth glinigol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i annog a helpu staff y ward i gael goruchwyliaeth glinigol.



## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Gwasanaeth:** Ysbyty Sirol

**Ward:** Ward Talygarn

**Dyddiad arolygu:** 9 - 11 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch.	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Ysbyty Sirol

**Ward:** Ward Talygarn

**Dyddiad arolygu:** 9 - 11 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir cefnogi a hwyluso gweithgareddau ad hoc ychwanegol ar y ward.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei bod wedi bod yn anos hwyluso gweithgareddau ad hoc am fod cyflwr y cleifion yn ddifrifol ac am fod angen staff nyrsio i gefnogi'r cleifion pan gânt eu derbyn i ysbytai cyffredinol.</p> <p>Mae'r sefyllfa'n waeth hefyd am fod gan y ward swydd wag i Therapydd Galwedigaethol, sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Mae'r rôl hon wedi helpu i roi gwybod i'r tîm ehangach am</p>	Pennaeth Therapi Galwedigaethol	Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>weithgareddau ad hoc priodol er mwyn helpu'r cleifion i wella.</p> <p>Mae'r ward yn awyddus i hwyluso gweithgareddau wedi'u cynllunio a gweithgareddau ad hoc drwy amrywiaeth o ddisgyblaethau ac asiantaethau. Bydd y ward yn parhau i gydweithio â sefydliadau trydydd sector fel Hafal a bydd yn adolygu'r cyfarpar sydd ar gael i gefnogi gweithgareddau ad hoc.</p> <p>Roedd y ward wedi llwyddo i recriwtio gwirfoddolwyr ond yn anffodus, nid yw'r ddau wirfoddolwr yn gallu cynorthwyo'r ward mwyach. Mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r rheolwr gwirfoddolwyr i recriwtio mwy o wirfoddolwyr.</p> <p>Mae disgwyl i'r cyfarpar ymarfer corff awyr agored gael ei osod ym mis Tachwedd 2019.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward ac Uwch-dîm y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Rhagfyr 2019</p> <p>Chwefror 2020</p> <p>Rhagfyr 2019</p>
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod llenni o amgylch pob cawod.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae'r ward wedi ailarchebu llenni cawod newydd.	Rheolwr y Ward	Hydref 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ar ad-drefnu'r ward yn ystafelloedd gwely sengl.	4.1 Gofal ag Urddas	Cafodd pensaer ei gomisiynu i adolygu cynllun mewnol ward Talygarn i gynnig opsiynau ar gyfer ystafelloedd gwely sengl a dangos yr effaith ar nifer y gwelyau. Mae'r adroddiad wedi dod i law ac mae'r Is-adran yn adolygu'r opsiynau ar y cyd â materion tebyg ar gyfer ward arall. Mae angen i'r pensaer adolygu cynllun y ward arall nawr. Caiff yr opsiynau ar gyfer y ddwy ward eu hystyried gan gyfeirio at brofiad y claf a'r effaith ar y ddarpariaeth gwelyau aciwt yn yr ardal. Ar ôl i'r ddau adroddiad ddod i law a chael eu harfarnu ar y cyd, caiff yr opsiwn (opsiynau) a ffeirir ei gyflwyno (eu cyflwyno) i'r Bwrdd Iechyd ei ystyried (eu hystyried).	Cyfarwyddwr yr Is-adran	Chwefror 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ar y cynlluniau i osod cyfarpar ymarfer corff awyr agored.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae'r cyfarpar ymarfer corff awyr agored wedi cael ei brynu ac mae disgwyl iddo gael ei osod ym mis Tachwedd 2019.	Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Rhagfyr 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod landerï'r adeilad yn rhydd o unrhyw rwystrau ac yn gweithio'n iawn.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae cais wedi cael ei gyflwyno i Adran Gwaith ac Ystadau'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r gwaith hwn.	Rheolwr Gwaith ac Ystadau	Tachwedd 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos am rôl AGIC a sut y gellir cysylltu â'r sefydliad.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gofyn am bosteri gan AGIC. Cyn gynted ag y bydd y posteri hyn yn cyrraedd, cânt eu harddangos ym mhob ward ac yng nghanolfannau timau iechyd meddwl.	Pennaeth Ansawdd a Gwella	Tachwedd 2019

Darparu gofal diogel ac effeithiol



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd cyrraedd y botwm galw nyrs o'r gwely mewn ystafelloedd gwely.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Mae modd cyrraedd y botymau galw nyrs o'r gwely. Ar adegau, nodir y dylid symud y gwely am resymau clinigol er mwyn ei gwneud hi'n haws arsylwi ar y claf mewn modd sydd mor anymwithiol â phosibl. Ar adegau fel hyn, byddai'n rhaid i'r person gamu o'r gwely i ddefnyddio'r botwm galw. Yn yr achos hwn, byddai un aelod o'r staff yn arsylwi ar y person hwn yn barhaus neu bob 15 munud ac felly byddai'r staff ar gael yn rheolaidd iawn. Pe bai person yn methu â symud o'r gwely i ganu'r larwm, byddai'n cael ei symud i ystafell wely/gwely arall. Ar ôl i asesiad ddangos bod y risg glinigol wedi lleihau, caiff y gwely ei symud yn ôl i'w safle arferol.</p> <p>Caiff lleoliad gwelyau, larymau galw a phaneli arsylwi ei ystyried fel rhan o unrhyw waith adeiladu/ailddylunio yn y dyfodol.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ar y cynllun i greu'r Ardal Gofal Ychwanegol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Cytunwyd ar gyllid cyfalaf ac mae wedi cael ei gymeradwyo. Mae disgwyl i'r gwaith ddechrau ym mis Tachwedd 2019.	Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Ionawr 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd y clinigau sy'n cynnwys meddyginiaethau yn cael ei fonitro'n rheolaidd.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Bydd staff y ward yn monitro tymheredd y clinig yn rheolaidd ac yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.  Mae'r wardiau wedi cael cyfarwyddyd i gysylltu â'r Fferyllfa am gyngor os bydd y tymheredd yn codi'n uwch na 25°C.	Rheolwr y Ward	Ar unwaith
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried rhoi trefniadau hunan-feddyginiaeth ar waith ar gyfer cleifion sydd wedi cael asesiadau priodol, yn barod ar gyfer eu rhyddhau.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi hunan-feddyginiaeth. Mae'r Uwch-nyrs wedi trefnu cyfarfod â'r Fferylllydd i drafod ac adolygu opsiynau i gefnogi hyn.	Rheolwr y Ward	Tachwedd 2019
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw cofnodion y cleifion yn rhy llawn.	3.5 Cadw cofnodion	Mae Clerc y Ward wedi adolygu'r nodiadau i gyd ac wedi creu cyfrol newydd o nodiadau lle bo angen. Bydd clerc y ward yn parhau i fonitro hyn.	Clerc y Ward	Cwblhawyd

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ar ddarpariaeth y bwrdd iechyd ar gyfer derbyn oedolion y tu allan i oriau	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r ddarpariaeth gofal aciwt yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion fel rhan o raglen ehangach o waith trawsnewidiol gyda phartneriaid ar reoli argyfyngau. Mae hyn yn cynnwys rheoli derbyniadau y tu allan i oriau. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ymestyn oriau gwaith y Timau Triniaeth yn y Cartref i Ddatrys Argyfyngau i 24 awr, gyda mwy o fewnbwn amlddisgyblaethol. Cafodd y patrymau gwaith estynedig eu mabwysiadu gan y timau ar ddechrau mis Hydref a chaiff yr effaith ar brofiad y claf a derbyniadau y tu allan i oriau ei monitro.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, Iechyd Meddwl Oedolion	Ebrill 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir cefnogi'r staff ymhellach, yn ystod ymchwiliad i ddigwyddiad.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Bydd y Bwrdd Iechyd yn holi staff i ddeall y ffordd orau o gefnogi staff ar yr adegau hyn.  Mae'r staff wedi dweud bod y broses ddadfrifio, cynigion o gymorth gan gydweithwyr seicoleg a chyfweliadau	Pennaeth Ansawdd a Gwella/Nyrs Arweiniol Iechyd Meddwl Oedolion	Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		strwythuredig a chefnogol gan y swyddog adolygu wedi helpu. Bydd yr Is-adran yn defnyddio'r gwersi hyn i hyfforddi swyddogion adolygu		
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i annog a helpu staff y ward i gael goruchwyliaeth glinigol.	7.1 Y Gweithlu	Mae'r ward wedi hwyluso prosiect i brofi dulliau goruchwyllo gwahanol â staff y ward; yn enwedig staff nyrsio. Mae'r prosiect wedi cael ei werthuso a chaiff y canfyddiadau eu cyflwyno yng nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gyfarwyddiaeth yn gyntaf fel y gellir gwrandao ar argymhellion. Yna cânt eu rhoi ar waith a'u cyflwyno mewn wardiau eraill.	Uwch-nyrs, Nyrs Arweiniol Iechyd Meddwl Oedolion, Tîm y Gyfarwyddiaeth	Chwefror 2020

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):**

**Dr Chris O'Connor**

**Teitl swydd:**

**Cyfarwyddwr yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu**

**Dyddiad:**

**16 Hydref 2019**